Rhwymedigaeth Gwasanaeth Gyffredinol

Datganiad a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Telathrebu

30 Awst 2001

Crynodeb Cymraeg

S1 Mae'r rhwymedigaeth gwasanaeth gyffredinol (USO) yn gysyniad sylfaenol o reoleiddio telathrebu yn y DU. Dylai gwasanaethau ffôn sylfaenol fod ar gael i bawb yn dilyn cais rhesymol ac am bris fforddiadwy. Mae'n rhaid i BT a Kingston Communications, sydd yn ardal Hull, ddarparu llinell ffôn ar gais a phecynnau tariff arbennig i helpu'r bobl hynny sydd ag anghenion cymdeithasol arbennig ac sydd ar incwm isel. Mae'n rhaid i bob cwmni ffôn ddarparu bil eitemedig a mynediad i'r gwasanaethau brys a chyfleuster ymholiadau ffôn.

S2 Pennwyd y gofynion presennol ym 1997 am gyfnod o bedair blynedd. Edrychodd Oftel ar yr USO a'r newidiadau yn y farchnad i weld beth ddylai lefel a chwmpas yr USO fod o 2001. Cyhoeddodd Oftel ddogfennau ymgynghorol ym mis Mehefin 1999 a mis Medi 2000. Mae Oftel hefyd wedi ystyried y ddeddfwriaeth Ewropeaidd bresennol ac arfaethedig ar gwmpas ac arian yr USO. Mae'r datganiad hwn yn rhoi casgliadau Oftel.

Gweithredu'r drefn bresennol

S3 Nid oes gan 7 y cant o gartrefi yn y DU linell ffôn wedi'i gosod. Amrywia hyn o ranbarth i ranbarth. Mae'r mwyafrif o bobl heb ffôn ar incwm isel ac iddynt hwy mae'r gost ar gallu i reoli gwariant yn ystyriaethau hanfodol. Mae 85 y cant o'r rheini sydd heb linell ffôn wedi'i gosod yn berchen ar ffôn symudol ac yn fodlon gan fwyaf â'r dull arall hwn. Mae pobl sy'n dibynnu ar ffonau talu yn unig yn wynebu anawsterau ymarferol ac yn teimlo'n ynysig.

S4 Teimla'r mwyafrif o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy bod lefel a chwmpas presennol yr USO yn cyflawni ei amcanion. Teimla rhai y dylai Oftel roi mwy o ystyriaeth i ffonau symudol wrth asesu effeithlonrwydd yr USO. Anogwyd Oftel gan y defnyddwyr i weithredu ymhellach ar lefel y datgysylltiadau a BT i gyflwyno prawf mwy hyblyg ar "resymoldeb" pan fo cwsmeriaid yn gwneud cais am linell ffôn.

S5 O ganlyniad, daw Oftel i gasgliad y dylai'r rhwymedigaeth aros ar BT a Kingston i:

- darparu cysylltiad sylfaenol â'r rhwydwaith sefydlog;
- cynnig Cynllun gwasanaeth mwy cyfyngedig am gost isel;
- sicrhau gweithdrefnau datgysylltu cymesurol ac anwahaniaethol a gaiff eu cyhoeddi ac a fydd ar gael i'r cyhoedd.

S6 Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid yn y dyfodol, bydd Oftel yn monitro boddhad gyda'u prif ddulliau o ffonio – gan gynnwys ffonau symudol a blychau ffôn. Yn ogystal, bydd BT ac Oftel yn cydweithio i lunio cyfres o ganllawiau ar y meini prawf i'w defnyddio i benderfynu ar 'resymoldeb' ar gyfer cwsmeriaid preswyl a busnes.

S7 Gofynnir i BT hefyd adolygu ei waharddiad presennol i'r rheini sydd â ffonau symudol o'i gynlluniau arbennig er mwyn sicrhau bod cynlluniau cost isel yn parhau i fod ar gael ar gyfer defnyddwyr ar incwm isel a'r rhai sydd ag anghenion arbennig. Bydd Oftel yn adolygu pob Cynllun yn 2003.

S8 Nid yw lefel y datgysylltiadau yn gostwng yn sylweddol. Cred Oftel y dylai **pob** gweithredwr sicrhau bod eu gweithdrefnau datgysylltu yn briodol, wedi'u cyflawni'n llawn ac y rhoddir cyhoeddusrwydd digonol iddynt. Bydd Oftel yn gweithredu i ddod â gweithredwyr a chynrychiolwyr defnyddwyr at ei gilydd i drafod datgysylltiadau a materion perthnasol er mwyn sefydlu canllaw 'arfer da'.

S9 O ran darpariaethau ar gyfer defnyddwyr anabl, bydd Oftel yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr sefydlog gofnodi eu cydymffurfiad â'r Rheoliadau Gwasanaethau i Bobl Anabl 2000 yn ffurfiol ym mis Hydref 2001. Bydd Oftel yn annog gweithredwyr ffonau symudol i fabwysiadu darpariaeth gyffelyb fel i weithredwyr sefydlog.

S10 Bydd Oftel yn ymgynghori yngl• n â ffonau talu yn ddiweddarach eleni. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y meini prawf presennol ar gyfer gosod ffonau talu ar sail angen cymdeithasol; hefyd yr arweiniad ar dynnu ac ail-leoli blychau ffonio cyhoeddus.

Cost yr USO

S11 Caiff costau'r USO eu talu gan BT a Kingston. O dan gyfraith Ewropeaidd, dim ond os bydd cost net sy'n gosod baich annheg ar ddarparwr yr USO y gellir sefydlu cronfa lle bydd pob gweithredwr yn rhannu cost yr USO. Dangosodd arolwg Oftel ym 1997 o'r USO fantais net sylweddol o fod yn ddarparwr yr USO.

S12 Dadleuodd BT a Kingston bod Oftel wedi tanbrisio'r costau ac wedi goramcangyfrif y manteision o fod yn ddarparwr yr USO. Ategodd y mwyafrif o'r ymatebion eraill gasgliadau Oftel neu awgrymwyd bod Oftel wedi tanbrisio'r manteision. Ni roddodd BT a Kingston fwy o wybodaeth am y costau i gefnogi eu hachos. Nid yw BT ac Oftel wedi cytuno ar asesu'r manteision, yn arbennig y rheini sy'n ymwneud â delwedd y cwmni. Dangosodd Adolygiad Rheoli Prisiau diweddar Oftel bod lefel proffidioldeb gyffredinol BT, ar ôl ystyried costau'r USO, yn rhagori ar yr hyn yr oedd BT ei angen i gwmpasu'r costau llawn a gwneud elw rhesymol.

S13 Casgliadau Oftel yw nad yw'r USO yn cynrychioli baich annheg. Fodd bynnag, bydd Oftel yn ystyried y mater hwn fel rhan o'i adolygiad o farchnadoedd manwerthu i'w gwblhau erbyn 2002. Bydd Oftel hefyd yn cynnal ymchwil pellach i'r manteision i 'frand' BT o fod yn ddarparwr yr USO.

Cwmpas yr USO

S14 Mae Oftel wedi ystyried effaith datblygu cynnyrch a gwasanaethau newydd ar yr USO. Mae'r rhwydwaith analog sefydlog heddiw yn galluogi pawb bron i gael mynediad i'r Rhyngrwyd. Mae pecynnau blaengar o ran codi taliadau yn hyrwyddo defnydd o'r Rhyngrwyd. Datgelodd yr ymgynghoriad bryder bod isafswm cyflymder

y data wedi'i osod ar lefel Ewropeaidd efallai yn rhy isel ar gyfer mynediad i'r Rhyngrwyd. Mae'n fwriad gan Oftel i adolygu pa lefel y dylid ei gosod yn y DU o 2003 os, fel y disgwylir, y gwneir y gofynion Ewropeaidd yn fwy hyblyg.

S15 Teleffoni a data sylfaenol yw cyd-destun yr USO. Cefnoga Oftel y nod o rwydweithiau cyfathrebu ystod uwch ac mae'n datblygu amgylchedd rheoleiddio i annog hyn. Bydd Oftel yn cynnal adolygiad manwl rhwng y cysylltiadau â'r gwasanaethau ystod uwch a'r USO. Byddai angen trafod ymestyn yr USO yng nghyd-destun y fframwaith Ewropeaidd, dylanwad ar fuddsoddiadau, cyllido, croes-gymorthdaliadau, galw'r defnyddwyr a'r dulliau cyflenwi. Bydd Oftel yn cynnal ymchwil pellach ac yn gweithio â'r Llywodraeth, y diwydiant a'r defnyddwyr.